

CYNGOR TREF FRENHINOL CAERNARFON

COFNODION CYFARFOD Y CYNGOR LLAWN, 7fed GORFFENNAF 2020 - CYFARFOD RHITHIOL

Yn bresennol: Ei Deilyngdod Y Maer – Cynghorydd W.Tudor Owen
(Cadeirydd)

Y Cynghorwyr W.L.Davies, A.Hopcyn, E.R.Hughes, D.L.Jones, K.Jones,
C.Larsen, E.Lovgreen, B.Owen, S.Sage, M.Sarnacki, I.C.Thomas, R.
Thomas, C.Williams

1. Ymddiheuriadau

Y Cynghorwyr W.R.Owen, J.W.Parry, K.Richards

2. Cyhoeddiadau'r Maer

Dim.

3. Datgan Buddiant Personol

Dim.

4. Eitemau Brys (Cadeirydd / Clerc)

Llythyr gan Brif Weithredwr Cyngor Gwynedd

Cyflwynwyd llythyr gan Dilwyn Williams, Prif Weithredwr Cyngor Gwynedd, yn nodi:

- (1) Bod Mark Drakeford y Prif Weinidog wedi penderfynu dileu'r gofyn i aros yn lleol ar y 6ed o Orffennaf.
- (2) Y bu i rai o fewn y Llywodraeth awgrymu y byddai hyn yn amodol ar "ganiatâd y gymuned" sydd wedi arwain rhai i feddwl y bydd gan gymunedau "veto" dros y penderfyniad.
- (3) Ei bod yn ofynnol cymryd camau i geisio cefnogi busnesau drwy'r cyfnod ansicr yma.
- (4) Gan fod y Llywodraeth bellach yn ystyried fod y risg i lechyd Cyhoeddus ddigon isel fel bod modd agor yr economi i ganiatau i fwy o fusnesau weithredu, bydd hyn yn golygu y bydd yna fwy o ymwelwyr yn dod i'r Sir.
- (5) Y bydd y Cyngor yn ail agor cymaint o gyfleusterau ag y mae modd ei wneud yn ddilogel drwy ddilyn yr un egwyddorion.
- (6) Mai pwrpas y llythyr oedd gofyn am farn Cyngorau Cymuned / Tref ynglŷn â'r sefyllfa, o gofio y bydd mwy o ymwelwyr yn dod i'r ardal, ac o ran beth ddylai Cyngor Gwynedd ystyried ei wneud yn ymarferol fyddai'n

helpu i leddfu unrhyw bryderon lleol am y ffaith y bydd yr economi yn ail agor.

Penderfynwyd y dylid ymateb i Gyngor Gwynedd drwy ddatgan, gan y bydd dileu'r gofyn i aros yn lleol yn golygu y bydd mwy o ymwelwyr yn dod i Wynedd, ac felly dylid pwysleisio bod angen galw ar yr ymwelwyr hynny i ymddwyn yn gyfrifol, i barchu cymunedau lleol ac uwchben pob dim, i gydymffurfio gyda rheolau hylendid a phellhau cymdeithasol.

5. Cofnodion

I gadarnhau'r cofnodion canlynol:

i. Cyngor Llawn – 9fed o Fehefin 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir, ond datgan na ddylai cyflogau wythnosol unigolion gael eu cynnwys yn y cofnodion o hyn allan.

ii. Pwyllgor Adloniant – 18fed Fehefin 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

iii. Pwyllgor Cyllid – 23ain o Fehefin 2020

Penderfynwyd derbyn fel rhai cywir.

6. Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn a'u talu.

7. Cysoni Cyfrifon

Penderfynwyd derbyn er gwybodaeth.

8. Cyfarfod cyntaf ar ôl cyfarfod blynyddol

Trafodwyd y materion canlynol:

- (i) Derbyn enwebiadau ar gyfer pwyllgorau presennol**
- (ii) Enwebiadau cyrff allanol**
- (iii) Penodi unrhyw bwyllgorau newydd**
- (iv) Mabwysiadu rheolau ariannol a'r cod ymddygiad**
- (v) Adolygu aelodaeth y Cyngor / neu weithwyr ar gyrff eraill**

Penderfynwyd:

(i) Derbyn y rhestr ynghlwm efo'r diwygiadau canlynol:

- Pwyllgor Cynllunio – dileu enw'r Cynghorydd E.R.Hughes;**

- **Is-bwyllgor Personél – rhoi enw'r Cynghorydd W.Tudor Owen yn lle'r Cynghorydd B.Owen**
- (ii) **Derbyn y rhestr ynghlwm efo'r diwygiadau canlynol:**
- **Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog – ychwanegu “Maer pe dymunai” i'r rhestr**
- (iii) **Dim pwyllgor newydd**
- (iv) **Derbyn a'u mabwysiadu, ond y dylid creu trefn fel bod Cynghorwyr yn darllen polisiau, ac yn llofnodi eu bod wedi gwneud hynny**
- (v) **Parhau gydag Unllais, SLCC a'r Grŵp Cyfeillgarwch Trefi Caerog**

Nodwyd y trafodwyd y canlynol yn y cyfarfod o'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fehefin:

(i)	Adolygu trefniadau unrhyw ddirprwyo i bwyllgorau / is-bwyllgorau
(ii)	Adolygu cylch gorchwyl pwyllgorau
(iii)	Rheolau Sefydlog
(iv)	Mabwysiadu rhestr asedau ac asesiad risg ariannol
(v)	Adolygu trefniadau cwynion
(vi)	Adolygu polisiau
(vii)	Penodi Archwilydd Mewnol

Gadawodd y Cynghorydd E.R.Hughes y cyfarfod am 6.30 p.m.

9.Archwiliad 2019/20

Cyflwynwyd:

- (a) Adroddiad y Clerc am Archwiliad 2019/20 a gyflwynwyd i'r Panel Cyllid ar y 23ain o Fehefin.
- (b) Yn unol â phenderfyniad y Pwyllgor Cyllid yn ei gyfarfod ar y 23ain o Fehefin, cyflwyno'r ffurflen flynyddol 2018/19 wedi ei chymeradwyo er sylw'r Cyngor Llawn.

Penderfynwyd nodi a derbyn ffurflen flynyddol 2018/19.

10. Adeilad yr Institiwt

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc yn rhoi diweddariad ar faterion yn ymwneud ag Adeilad yr Institiwt.

Adroddwyd ar y materion canlynol gan y Clerc:

(I) Gwariant Dynodedig

- (1) Bod angen gwariant sylweddol ar Adeilad yr Institiwt dros y blynyddoedd nesaf, a bod angen rhaglen waith er mwyn cyflawni hyn.

- (2) Bod y Cyngor wedi clustnodi £25,000 ar gyfer atgyweirio / ail-adeiladu'r adeilad yn Amcangyfrifon 2020/21. Roedd hyn yn cymharu gyda £10,000 yn Amcangyfrifon 2019/20.
- (3) Bod y Cyngor wedi cytuno i glustnodi arian fel gwariant dynodedig "designated funds" yn y blynyddoedd dilynol fel a ganlyn:

2021/22	£20,000 – Adeilad yr Institiwt
2022/23	£20,000 – Adeilad yr Institiwt
2023/24	£20,000 – Adeilad yr Institiwt

Penderfynwyd nodi'r uchod.

(II) Asbestos

- (1) Bod Adroddiad Archwiliad Asbestos, dyddiedig Medi 2018, yn nodi bod asbestos Chrysotile (risg canolig) yn yr hen fwyler mewn adeilad allanol yn nghefn yr adeilad.
- (2) Ei fod wedi cysylltu efo Contractwr oedd wedi rhoi'r costau ar gyfer hyn.

Penderfynwyd caniatáu i'r gwaith o waredu'r asbestos gymryd lle ar gost o £1,955 + TAW, fel a ganlyn:

- **Cost o symud yr hen fwyler a'i waredu gyda casgedi asbestos a gwneud gwaith glanhau amgylcheddol o'r ystafell bwylwr yw £ 790 + TAW.**
- **cost y gwaredu yw £ 450 + TAW ynghyd â £ 40 + TAW ar gyfer y nodyn traddodi gwastraff.**
- **Ilogi craen i godi'r bwylwr o fewn y Cwrt yng nghefn yr adeilad yn costio £ 355 + TAW.**
- **profion awyr ar ôl cwblhau'r gwaith yn costio £ 320 + TAW.**

(III) Archwiliad Trydanegol

Bod archwiliad trydanol wedi ei gwblhau ar yr adeilad ym mis Mawrth. Gan fod Covid-19 wedi bod, disgwylir am yr Adroddiad er mwyn gallu gweithredu ar yr argymhellion yn fuan.

Ar gais Cynghorydd, nododd y Clerc y bydd yn edrych i mewn i filiau Dŵr a Nwy mis Mawrth, gan eu bod yn ymddangos yn uchel.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

(IV) Galwch Acw

- (1) Bod gwaith angenrheidiol angen cael ei wneud ar adeilad Galwch Acw (tenantiaid 8 – 10 Stryd Bangor), a bod y cyfrifoldeb o ran ariannu yn disgyn ar y Cyngor Tref fel y landlord.
- (2) O ran y gwariant ar y toiledau, erbyn hyn roedd y Clerc wedi cael yr wybodaeth mai'r tendr isaf oedd £16,722.

- (3) Y bydd hyn yn cynyddu gan fod gwaith wedi ei adnabod o ran gwneud y joists yn y seler yn ddiogel, a swapio lleoliad y toiled anabl a'r gegin yn Galwch Acw, oedd yn gwneud synnwyr o safbwynt mynediad.
- (4) Teimlir y gallasai'r Cyngor Tref ofyn am gyfraniad gan Cyngor Gwynedd tuag at y costau, a'u bod wedi cytuno i hyn.

Penderfynwyd

- (1) **Gofyn i'r Clerc wirio os oedd penderfyniad blaenorol wedi ei wneud ar hyn.**
- (2) **Gofyn am 50% o gyfraniad gan Gyngor Gwynedd tuag at addasiadau'r toiled a llawr yr hen doiled yn Galwch Acw.**
- (3) **Y dylai'r Cyngor Tref dalu am atgyweirio'r joists sy'n pydru yn y selar.**

(V) Larwm Lladron

- (1) Bod y larwm lladron yn rhan o'r adeilad y mae'r Cyngor yn ei ddefnyddio wedi ei wirio ar yr 8fed o Fehefin, ac mae'n cyrraedd y safon disgwylidig.
- (2) Nid oes larwm lladron sy'n gweithio yn Galwch Acw, a derbyniwyd pris am osod un newydd gan Snowdonia Fire and Security o £928.20 + TAW

Penderfynwyd gofyn i'r Clerc drafod yr opsiynau efo'r tenant o ran y larwm lladron yn Galwch Acw, ac os oeddent yn barod i gyfrannu at y pris.

(VI) Larwm Tân

- (1) Bod yr archwiliad tân a wnaed ym Mawrth 2020 wedi amlygu'r angen i wirio'r systemau larwm tân a goleuadau argyfwng.
- (2) Bod sawl nam wedi ei amlygu, ac felly gofynnir am bris i atgyweirio'r sistem fel ei fod yn cyrraedd y safon ddisgwylidig.

Penderfynwyd gwneud y gwaith wedi derbyn dyfynbris cyn belled bod y Clerc yn ystyried y dyfynbris yn un rhesymol.

(VII) Cyllid

Bod ceisiadau wedi eu gwneud am "Grant Cefnogi Busnes" covid-19 ar gyfer y rhan o'r adeilad a ddefnyddir gan y Cyngor ac am siop Galwch Acw. Erbyn hyn roedd y rhan a ddefnyddir gan y Cyngor wedi cael cadarnhad fod grant o £25,000 wedi ei dderbyn.

Penderfynwyd nodi'r uchod.

(VIII) Asesiad Risg Legionella

Penderfynwyd trefnu Asesiad Risg Legionella ar yr adeilad yn y dyfodol agos.

(IX) Y Liff

- (1) Y cafwyd problem efo'r liff yn Adeilad yr Institiwt. Mae un o'r gweithwyr sy'n gweithio ar y toiled yn Galwch Acw wedi cael sioc trydanol wrth afael yn rhywbeth sy'n gysylltiedig efo'r liff. Cwblhawyd ffurflen damweiniau. Roedd y Clerc wedi siarad efo'r unigolyn, ac mae o'n iawn, a deallwyd mai statig mae'n debyg oedd wedi achosi'r sioc.
- (2) Peiriannwr o wasanaeth YGC Cyngor Gwynedd fu gyffwrdd trawst dur ar y llawr gwaelod isaf (Iefel Stryd Bangor).
- (3) Gan ein bod allan o waranti efo'r liff ers 2018 rhaid oedd trefnu i gwmni KONE ddod i mewn i atgyweirio'r liff beth bynnag, a bod y pris yn dod allan yn £377.69, gyda chost o £195.30 am bob awr wedi hynny.

Penderfynwyd ail ddechrau'r gytundeb efo Cwmni KONE (pris £695 & TAW), fel eu bod yn dod allan i atgyweirio, a gofalu am, y liff.

11. Polisi Cyfryngau Cymdeithasol

Yn unol â phenderfyniad y Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fehefin, cyflwynwyd Polisi Cyfryngau Cymdeithasol diwygiedig drafft i sylw'r aelodau.

Gofynnwyd os fyddai'n bosib i'r polisi hwn fod yn rhan o'r Cod Ymddygiad, a nodwyd mae'n debyg mai cael cymal (o ran cydymffurfio gyda'r holl bolisiau) yn y Cod Ymddygiad fyddai'r ateb.

Penderfynwyd mabwysiadu'r Polisi Cyfryngau Cymdeithasol fel y polisi ar gyfer y Cyngor.

12. Taflen Croeso Caernarfon

Cyflwynwyd llythyr a Thaflen Croeso Caernarfon i sylw'r aelodau er mwyn eu hatgoffa ohono, ac ystyried eu defnyddio yn y dyfodol.

Nodwyd y byddai'n ddelfrydol pe byddai pob siop yn y dref yn cael ymweliad gan Gynghorydd, efo'r daflen.

Penderfynwyd:

- (1) Defnyddio'r llythyr a Thaflen Croeso Caernarfon ar gyfer busnesau newydd yn y dref, a'r rhai sydd wedi eu heffeithio gan Covid-19.**
- (2) Argraffu'r taflenni yn allanol, fel eu bod efo diwyg broffesiynol.**

13. Y Gofrestr Asedau

Yn dilyn trafodaeth yn y Cyngor, yn ei gyfarfod ar y 9fed o Fehefin, ac yn dilyn ymgynghori gyda'r Archwilydd Mewnol, gofyn am ganiatâd i ail-lunio rhestr asedau'r Cyngor cyn Awdit 2020/21 i gynnwys dim ond asedau sydd ac amcangyfrif gwerth uwch na £250 neu sydd o bwys hanesyddol.

Penderfynwyd caniatáu'r Clerc i ail-lunio rhestr asedau'r Cyngor cyn Awdit 2020/21 i gynnwys dim ond asedau sydd ac amcangyfrif gwerth uwch na £250 neu sydd o bwys hanesyddol.

14. Covid-19

Cyflwynwyd cais gan Rheolwr Rhaglenni Adfywio Cyngor Gwynedd i gael cynrychiolaeth o'r Cyngor ar grŵp bychan o'r Aelodau Lleol, Cyngor Tref a Grwpiau Busnes yn lleol. Gofynnir am ddau 2 gynrychiolydd.

Penderfynwyd ethol y Cynghorydd Eleri Lovgreen a'r Clerc ar y grŵp.

15. Blodau ar y Maes

Cyflwynwyd adroddiad y Clerc o ran y cynllun i gael blodau ar y Maes.

Nododd fod y Cynghorydd Maria Sarnacki a'r Gofalwr wedi bod yn edrych ar flodau yn Fron Goch, ac wedi dod i fyny efo rhestr oedd yn werth £380.

Penderfynwyd:

- (1) Parhau efo'r cynllun i roi blodau ar y Maes, gan wario'r £380 oedd wedi ei glustnodi.**
- (2) Gwneud ymholiadau o ran cael rhywun i ddyfrio'r blodau yn rheolaidd, er enghraifft un o weithwyr Fron Goch.**

16. Cyfrifon yr Institiwt

Cyflwynwyd Cyfrifon yr Institiwt am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2020, fydd yn gorfod cael eu hadrodd i'r Comisiwn Elusennau erbyn diwedd Ionawr 2021.

Penderfynwyd:

- (1) Gofyn am gopi o'r Cyfrifon yn ddwyieithog.**
- (2) Yn dilyn hyn, derbyn Cyfrifon yr Institiwt am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2020, a gofyn i'r Clerc arwyddo a phasio copi at yr Archwilydd Mewnol.**

17. Neges o'r Gaiman

Cyflwynwyd gwybodaeth gan Daniel Hughes, Cadeirydd Cymdeithas Dewi Sant Trelew, ynglŷn â dathliadau ar yr 28ain o Orffennaf, sef Gŵyl y Glaniad, i gofio glanio y Cymry ym Mhatagonia 155 o flynyddoedd yn ôl.

Hoffai'r Gymdeithas gael neges fideo o gyfarchion gan y Maer gan fod Caernarfon yn dref enedigol Lewis Jones, a'i fod yn dref sydd wedi ei gyfeillio gyda Trelew.

Penderfynwyd nodi'r ffaith fod y Maer am gymryd rhan yn y neges fideo o gyfarchion.

18. Cwestiynau

Dim.

Gorffennodd y cyfarfod am 7.40 p.m.

Arwyddwyd

Dyddiad